

## DIWEDDARIAD

Cyhoeddwyd: 4 Awst 2020

### CYFUNO AC AMRYWIO TRWYDDEDAU CNC

### YN FFATRI BYRDDAU GRONYNNAU Y WAUN

Ers derbyn cais Kronospan am amrywiad i'w drwydded a dechrau ar ein penderfyniad manwl, rydym wedi gofyn am swm sylweddol o wybodaeth bellach gan Kronospan.

Mae sawl mater yn parhau heb eu datrys mewn perthynas â chais Kronospan am linell gynhyrchu newydd ar gyfer Preniau Fflawiau Cyfeiriedig (OSB), sydd wedi arwain at oedi pellach i'n penderfyniad ar yr amrywiad.

Mae'r mater mwyaf arwyddocaol yn ymwneud â'r asesiad sŵn, sydd wedi'i ohirio oherwydd pandemig Covid-19. Er bod Kronospan wedi rhagweld y lefelau sŵn sy'n gysylltiedig â'r datblygiad OSB arfaethedig, rydym o'r farn nad yw'r data cefndir a ddefnyddir er mwyn cymharu yn gynrychioliadol, felly ni allwn bennu maint yr effaith.

Gwnaethom ofyn am ragor o wybodaeth gan Kronospan ar 5 Chwefror 2020. Roedd hyn yn cynnwys cais am arolwg sŵn wedi'i ddiweddarau mewn naw lleoliad sensitif o amgylch y cyfleuster, i ddal y lefelau sŵn cefndirol sy'n nodweddiadol o weithrediad y cyfleuster heb y datblygiad OSB arfaethedig.

Nid oedd modd cynnal yr arolwg oherwydd tywydd garw yn ystod mis Chwefror ac yn gynnar ym mis Mawrth 2020. Yna cychwynnodd cyfnod clo Covid-19 ar 23 Mawrth 2020. O'r herwydd, ni ellid cynnal yr arolwg sŵn oherwydd nad oedd y safle yn gweithredu hyd eithaf ei allu (ac mae'n parhau felly).

Mae lefelau sŵn cefndirol yn yr ardal hefyd yn artiffisial o isel oherwydd llai o symudiadau traffig a gweithgarwch arall yn ystod y cyfnod digynsail hwn. Byddai unrhyw arolwg a gynhelir nawr yn dal i gael ei ystyried yn annodweddiadol o weithrediadau arferol y safle.

Ni allwn gwblhau ein hasesiad o gais OSB Kronospan heb y wybodaeth hon, felly rydym wedi penderfynu symud ymlaen gyda chyfuno trwyddedau Cyngor Bwrdeistref Sir Wreccsam a CNC ar wahân i'r penderfyniad OSB.

Mae manteision y dull diwygiedig hwn yn ddeublyg. Yn gyntaf, mae'n golygu y bydd CNC yn cymryd yr awenau o ran rheoleiddio'r safle cyfan, gan gyflawni'r holl swyddogaethau rheoleiddio mewn perthynas â'r drwydded mewn cyfnod byrrach. Yn ail, mae'n golygu y gallwn gwblhau ein hadolygiad statudol o weithgareddau cyfredol y safle yn erbyn y Technegau Gorau sydd ar Gael ar gyfer Cynhyrchu Paneli Pren, gan sicrhau bod y drwydded yn cynnwys yr arferion gorau Ewropeidd diweddaraf

a'r terfynau allyriadau cysylltiedig ar gyfer y Bwrdd Ffibr Dwysedd Canolig (MDF) a phrosesau cynhyrchu Byrddau Gronynnau.

Yn y cyfamser, rydym yn parhau i ymgysylltu â Kronospan ar y materion sydd heb eu datrys ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymgynghori â'r cyhoedd ar ein penderfyniad drafft ar gyfer y drwydded gyfunol. Rydym yn rhagweld y bydd ein penderfyniad drafft ar y cyfuno ar gael erbyn diwedd 2020.

Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl rhoi dyddiad penodol ar gyfer penderfyniad drafft ar y cais OSB, oherwydd er bod yr asesiad technegol yn parhau, mae sefyllfa Covid-19 yn effeithio arno. Fodd bynnag, byddwn yn ymgynghori â'r cyhoedd ar ein penderfyniad drafft ar y cais OSB unwaith y byddwn wedi cyrraedd y cam hwn.